# Adroddiad er Budd y Cyhoedd – Gwariant Anghyfreithlon a Threfniadau Annigonol i Sicrhau Gwerth am Arian – Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 1670A2019-20

Paratowyd yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd yn unol ag Adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod nac unrhyw berson arall yn eu cymhwyster unigol nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Gan weithio dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau sylweddol mewn prosesau penderfynu a diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Magwyr gyda Gwndy sydd wedi achosi i'r Cyngor ysgwyddo gwariant yr wyf fi'n ei ystyried yn anghyfreithlon.

Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r methiannau hyn ac yn dod i'r casgliad nad oedd gan y Cyngor drefniadau digonol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. O ganlyniad i'r methiannau hyn fe wnaeth y Cyngor, yn fy nhyb i, ysgwyddo gwariant a oedd yn gyfanswm o £86,068 ac sydd yn erbyn y gyfraith. Rwyf hefyd yn gwneud argymhellion i fynd i'r afael â'r methiannau hynny. Rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wneir, yn unol ag adran 25 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 5

Fy ngwaith archwilio 5

Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy 6

Canfyddiadau allweddol 8

Argymhellion a'r camau nesaf 9

Fy argymhellion 9

Camau gweithredu a gymerwyd gan y Cyngor 10

Y camau nesaf 11

Adroddiad manwl

Yn ystod 2018, cafodd perthnasoedd toredig yn y Cyngor effaith niweidiol ar y modd yr oedd yn cynnal ei fusnes 12

Methodd y Cyngor ag ymlynu wrth ei reolau mewnol ei hun ar gyfer caffael gwasanaethau ac o ganlyniad, yn fy nhyb i, fe ysgwyddodd wariant anghyfreithlon o fwy na £62,973 ac nid oedd ganddo drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian 15

Mae'r Cyngor wedi methu â dilyn proses briodol wrth recriwtio staff ac, yn fy nhyb i, mae wedi ysgwyddo gwariant anghyfreithlon sy'n gyfanswm o £22,595 21

Fe dalodd y Cyngor lwfansau anghyfreithlon i aelod unigol a oedd yn gyfanswm o £500 26

Nid oedd gan y Cyngor system rheolaeth fewnol ddigonol ac effeithiol a methodd â chydymffurfio â'i reoliadau ariannol ei hun 29

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghasgliadau sy'n deillio o'm harchwiliad o gyfrifon Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy (y Cyngor) ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Yn ystod yr archwiliad, cafodd materion a oedd yn ymwneud â threfniadau'r Cyngor ar gyfer rheolaeth ariannol a llywodraethu eu dwyn i'm sylw. Wrth ystyried y materion hyn, canfûm fethiannau sylweddol mewn prosesau penderfynu, diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol a methiant mewn perthnasoedd o fewn y Cyngor. Arweiniodd y methiannau hyn fi i'r casgliad nad oedd gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

2 Mae'r adroddiad hwn yn adroddiad ar unwaith a gyhoeddir er budd y cyhoedd dan Adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau'r Cyngor o ran ei brosesau penderfynu a diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol. O ystyried natur y materion yr wyf wedi'u canfod, rwy'n credu ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn ac iawn o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor.

3 Rwyf hefyd yn ystyried ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau bod y risg y bydd methiannau o'r fath yn digwydd eto'n cael ei lleihau i'r eithaf.

4 Rwy'n nodi bod gwersi i'w dysgu nid dim ond gan y Cyngor hwn, ond gan yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru.

### Fy ngwaith archwilio

5 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau tref a chymuned yn canolbwyntio ar ffurflen flynyddol a gwblheir gan y cynghorau ac a gyflwynir i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

6 Rhoddodd gohebiaeth a gefais yn ystod yr archwiliad achos i mi bryderu bod materion posibl gyda threfniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu'r Cyngor. Felly fe wnes i arfer fy nisgresiwn i wneud gwaith archwilio â ffocws mwy pendant.

7 Yn ystod yr archwiliad, fe archwiliodd fy nhîm archwilio ddogfennau a oedd yn cynnwys cofnodion cyfrifyddu, gohebiaeth a ddelir gan y Cyngor a chofnodion y Cyngor. Cyfwelodd fy nhîm â chynghorwyr ac aelodau o staff presennol a blaenorol hefyd.

8 Caiff fy nghanfyddiadau a'm casgliadau o'r gwaith archwilio eu nodi isod. Lle y bo'n bosibl, cafodd gwybodaeth a ddarparwyd yn ystod cyfweliadau ei chadarnhau gan dystiolaeth ddogfennol. Os na fu'n bosibl cadarnhau gwybodaeth a ddarparwyd,

nid wyf wedi dibynnu ar yr wybodaeth honno wrth ddod i'm casgliadau ond rwyf wedi cyfeirio at yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn.

9 Rwy'n cyhoeddi'r adroddiad hwn ar ôl proses glirio anarferol o faith. Mae'r broses glirio'n ceisio cadarnhau cywirdeb ffeithiol yr adroddiad a chael sylwadau ar y casgliadau cyffredinol y daethpwyd iddynt.

10 Fy ngweithdrefn glirio arferol yw fy mod yn gyntaf yn darparu detholiadau perthnasol o'r adroddiad i unigolion y gellir eu hadnabod o'r adroddiad er mwyn rhoi cyfle iddynt ateb y canfyddiadau a chywiro unrhyw anghywirdeb. Ar ôl myfyrio ynghylch sylwadau a gafwyd, gallaf ddiweddaru fy nghanfyddiadau dros dro cyn darparu copi ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

11 Cynhaliwyd y broses glirio hon yn y cyfnod rhwng mis Ionawr 2020 a mis Mawrth 2020. Roedd y broses ei hun yn faith oherwydd faint o wybodaeth a ddarparwyd a gohebiaeth ychwanegol a gafwyd. Mae unigolion a enwir yn yr adroddiad manwl wedi cael dau gyfle i wneud sylwadau.

12 Nid mater o negodi i lunio adroddiad y cytunir arno yw'r broses glirio. Er y gall cytundeb ynghylch tegwch a chywirdeb ffeithiol fod yn ddymunol, nid oes rhaid cytuno ar adroddiadau er mwyn iddynt gael eu cyhoeddi. Caiff sylwadau ynghylch tegwch a chywirdeb ffeithiol eu trin yn ôl eu teilyngdod.

13 Mae'r cyfrifoldeb am y casgliadau a'r barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn gorwedd gyda mi. Mae'r ymatebion a gafwyd yn ystod y broses glirio'n adlewyrchu anghytundeb â'm canfyddiadau a chasgliadau. Fodd bynnag, rwyf wedi ceisio adlewyrchu anghytundebau o'r fath trwy gyfeiriadau priodol yng nghorff yr adroddiad hwn.


## Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy

14 Mae'r Cyngor yn gwasanaethu pentrefi Magwyr a Gwndy yn Sir Fynwy. Mae'r Cyngor yn gwario oddeutu £170,000 y flwyddyn ar wasanaethau lleol gan gynnwys safleoedd rhandiroedd, cyrtiau tennis a man chwarae amlddefnydd. Mae'n ariannu ei wasanaethau yn bennaf trwy braesept a hawlir gan Gyngor Sir Fynwy (y Cyngor Sir).

15 Ers 2013-14, mae praesept y Cyngor wedi cynyddu o £105,000 i dros £200,000 (2018-19).

**Arddangosyn 1: lefel y praesept rhwng 2013-14 a 2018-19**

Rhwng 2013-14 a 2018-19, mae praesept y Cyngor wedi cynyddu bron £100,000 i £200,540.




Ffynhonnell: Cyfrifon Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy

16 Mae'r cynnydd uwch yn y praesept rhwng 2014-15 a 2015-16 a rhwng 2017-18 a 2018-19 yn ymwneud â'r canlynol[1]:

- 2014-15 a 2015-16
  - Cronfa offer chwarae;
  - Arolwg o diroedd claddu; a hefyd
  - Costau staff uwch o ganlyniad i gynnydd yn oriau'r clerc
- 2017-18 and 2018-19
  - Lwfans cyflog ar gyfer y cynorthwyydd gweinyddol
  - Adnewyddu cyrtiau tennis
  - Cynnydd yn lwfansau Cynghorwyr o ganlyniad i adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar lwfansau aelodau; a

[1] Gwybodaeth a ddarparwyd gan y Clerc

– Gwelliannau amrywiol eraill i’r pentrefi a oedd i gyd o dan £5,000.

17 Mae’r Cyngor Sir yn casglu’r praesept trwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Daw cyllid y Cyngor o bwrs y wlad a chaiff ei aelodau eu hethol gan drigolion lleol. Felly, mae’r Cyngor yn atebol i’r etholaeth leol.

18 Mae cynghorau cymuned bychain fel Magwyr gyda Gwndy yn dibynnu fel arfer ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Yn aml, penodir y Clerc yng nghymhwyster Swyddog Cyllid Cyfrifol hefyd. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy’n gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys cael a chofnodi incwm, paratoi taliadau â siec i’w llofnodi gan aelodau, cynnal y cofnodion cyfrifyddu a pharatoi’r datganiadau cyfrifyddu blynyddol.

19 O ganlyniad i absenoldeb y Clerc oherwydd salwch yn 2018, o fis Chwefror 2018, cyflogodd y Cyngor Gynorthwyydd Gweinyddol. Yn ogystal â’r Cynorthwyydd Gweinyddol, gan bod absenoldeb y Clerc yn un am gyfnod amhenodol ar y pryd, cafodd y Cyngor gymorth ychwanegol ar gyfer y Cynorthwyydd Gweinyddol trwy benodi Swyddog Cymorth Gweinyddol.

20 Er bod rôl y Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol yn bodoli, yn ôl y gyfraith, sef Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014), mae’r cyfrifoldeb am warchod arian y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod ganddo reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon, yn gorwedd gydag aelodau’r Cyngor (hynny yw, yr aelodau). Mae hyn yn cynnwys pethau fel sefydlu system rheolaeth fewnol briodol, gan gynnwys archwiliad mewnol, a chymeradwyo’r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i’r archwilydd allanol i gael eu harchwilio.

21 Mae gan y Cyngor 13 o gynghorwyr etholedig. Er eu bod yn cyflawni nifer o weithgareddau cymunedol, swyddogion etholedig ydynt ac nid gwirfoddolwyr. Fel a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA), mae hawl gan gynghorwyr i gael tâl o £150 y flwyddyn tuag at gostau a threuliau gwasanaethu’r gymuned. Gall cynghorwyr unigol wrthod derbyn y lwfans. Mae lwfansau ychwanegol yn daladwy i’r Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd blaenorol yn amodol ar gyfyngiadau a osodir gan PACGA.

# Canfyddiadau allweddol

22 Yn ystod 2018, roedd perthnasoedd o fewn y Cyngor wedi pallu. Cafodd hyn effaith niweidiol ar y modd yr oedd y Cyngor yn cynnal ei fusnes. Nid oedd hyn o fudd i’w enw da nac i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y trigolion.

23 Mae’n bwysig nodi na chanfûm unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod unigolion o fewn y Cyngor yn fwriadol wedi ceisio mynd o’r tu allan i drefniadau priodol. Fodd bynnag, ar y cyfan methodd y Cyngor â sicrhau bod ganddo system rheolaeth fewnol ddigonol ac effeithiol. Er bod ganddo reolau sefydlog a rheoliadau ariannol ar gyfer y modd y mae’n cynnal ei fusnes, ni ddilynodd y rhain.

24 Methodd y Cyngor ag ymlynu wrth ei reolau mewnol ei hun ar gyfer caffael gwasanaethau. O ganlyniad, yn fy nhyb i, ysgwyddodd wariant anghyfreithlon o fwy na £62,793. Ar ben hynny, yn seiliedig ar y trefniadau a ganfûm yn ystod fy

archwiliad, rwy'n dod i'r casgliad, ar gyfer y cyfnod y mae'r archwiliad yn ymwneud ag ef, nad oedd gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian.

25 Mae prosesau'r Cyngor ar gyfer penodi staff yn wael. Canfu fy archwiliad ei fod wedi methu â dilyn proses briodol wrth recriwtio staff a'i fod, yn fy nhyb i, wedi ysgwyddo gwariant anghyfreithlon o £22,337.

26 Er bod Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn nodi bod rhaid gwneud trefniadau penodol mewn perthynas â'i drefniadau bancio, methodd y Cyngor â gweithredu rheolaethau mewnol pwysig a ddylai ddiogelu ei gyllid.

27 Yn ystod fy ngwaith archwilio codwyd materion ychwanegol gan gynnwys:

- sefydlu cyfleuster storio ffeiliau Dropbox a defnydd o gyfrif e-bost personol ar gyfer busnes y Cyngor;
- cadw offer TG yng nghartref Cynghorydd; ac
- atgyfeiriadau at yr Ombwdsmon.

Er bod y materion hyn yn nodi gwrthdaro ac anghytundebau o fewn y Cyngor, yn fy marn i, nid yw'r materion hyn yn perthyn i'r cylch gwaith statudol a nodir gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Felly, nid wyf yn cynnwys sylw pellach arnynt yn yr adroddiad hwn.

28 Caiff fy nghanfyddiadau archwilio manwl eu nodi yng ngweddill yr adroddiad hwn.

# Argymhellion a'r camau nesaf

## Fy argymhellion

29 Rwy'n gwneud deg argymhelliad ar gyfer y Cyngor. Nod yr argymhellion hyn yw helpu'r Cyngor i wella'i reolaeth ariannol a'i drefniadau llywodraethu. Caiff fy argymhellion i'r Cyngor eu nodi isod.

**Arddangosyn 2: Argymhellion**

Rwy'n cyflwyno deg argymhelliad ar gyfer gwella i'r Cyngor.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| **Rheoliadau Ariannol** | |
| A1 | Dylai'r Swyddog Cyllid Cyfrifol sicrhau y ceir tri dyfynbris ar gyfer nwyddau a gwasanaethau o dan £25,000. |
| A2 | Dylai fod gan y Cyngor gontract ar gyfer gwasanaethau sy'n mynd i fod yn cael eu darparu dros y tymor hir (mae'n cysylltu ag A1). |

A3 Dylai’r Cyngor adolygu ei gynllun dirprwyo i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y diben.

A4 Dylai’r Cyngor sicrhau bod gan o leiaf un person fynediad at ei gyfrifon banc, fel a nodir yn y Rheoliadau Ariannol.

A5 Mae angen i adolygiad annibynnol o’r cysoniadau banc gael ei gwblhau o leiaf yn chwarterol.

**Polisi recriwtio**

A6 Dylai’r Cyngor ddatblygu, cymeradwyo a mabwysiadu polisi recriwtio.

A7 Dylai’r holl recriwtio ddigwydd trwy broses gystadleuol a lle mae personél interim yn y swydd, ni ddylent fod yn rhan o’r broses.

**Contract cyflogaeth**

A8 Dylid rhoi contractau cyflogaeth i’r holl gyflogeion.

**Y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

A9 Dylid ymlynu wrth ganllawiau’r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer lwfansau.

**Datgelu taliadau i gynghorwyr**

A10 Dylai’r Cyngor sicrhau bod ei ddatgeliadau o daliadau i gynghorwyr yn rhoi adlewyrchiad cywir o’r taliadau a wnaed.

## Camau gweithredu a gymerwyd gan y Cyngor

30 Yn ystod y broses glirio, rhoddodd y Cadeirydd presennol, y Cynghorydd Sally Bailey, wybod i’m tîm archwilio bod yr argymhellion canlynol wedi cael eu rhoi ar waith gan y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20:

- A3: Dylai’r Cyngor adolygu ei gynllun dirprwyo i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y diben.
- A8: Dylid rhoi contractau cyflogaeth i’r holl gyflogeion.
- A9: Dylid ymlynu wrth ganllawiau’r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer lwfansau.
- A10: Dylai’r Cyngor sicrhau bod ei ddatgeliadau o daliadau i gynghorwyr yn rhoi adlewyrchiad cywir o’r taliadau a wnaed.

31 Nododd hefyd fod A4: Dylai'r Cyngor sicrhau bod gan o leiaf un person fynediad at ei gyfrifon banc, fel a nodir yn y Rheoliadau Ariannol, wedi cael ei gwblhau yn 2018-19.

32 Nid yw fy nhîm archwilio wedi gwneud unrhyw waith maes ychwanegol i gadarnhau bod yr argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith fel a ddynodwyd gan y Cynghorydd Bailey.

## Y camau nesaf

33 Mae Adrannau 25 i 27 o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd rhai camau penodol er mwyn ymateb i'm hadroddiad a'm hargymhellion.

34 Yn awr rhaid i'r Cyngor drefnu cyfarfod o fewn un mis i gyhoeddi fy argymhellion. Rhaid hysbysebu'r cyfarfod trwy osod hysbysiad mewn papur newydd lleol. Rhaid i'r hysbysiad hwn nodi dyddiad ac amser y cyfarfod a diben y cyfarfod, h.y. ystyried yr adroddiad er budd y cyhoedd mewn perthynas â gwariant anghyfreithlon a threfniadau annigonol i sicrhau gwerth am arian.

35 Dylai'r Cyngor nodi bod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 wedi cael eu diwygio'n ddiweddar. O ganlyniad i'r diwygiadau, ni chaniateir eithrio'r cyhoedd o gyfarfod a gynhelir dan ofynion adran 25 Deddf 2004. Bydd angen i'r hysbysiad ynghylch y cyfarfod, os caiff ei gynnal o bell, ddatgan sut y gall y cyhoedd gael mynediad i'r cyfarfod.

36 Yn y cyfarfod hwnnw, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad yn mynd i gael eu derbyn; a hefyd
- pa gamau (os o gwbl) ddylid eu cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

37 Wedyn bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb mewn papur newydd lleol.

Ann-Marie Harkin

Cyfarwyddwr Gweithredol – Gwasanaethau Archwilio

Tros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Medi 2021

# Adroddiad manwl

## Yn ystod 2018, cafodd perthnasoedd toredig yn y Cyngor effaith niweidiol ar y modd yr oedd yn cynnal ei fusnes

### Canfuwyd rhaniadau o fewn y Cyngor sy'n arwydd o densiynau a diffyg parch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr rhwng aelodau'r Cyngor

38 Yn ogystal â'r methiannau o ran llywodraethu a nodir yng ngweddill y ddogfen hon, rwyf hefyd wedi bod yn dyst i densiynau sylweddol rhwng aelodau'r Cyngor ar yr adeg y mae fy archwiliad yn ymwneud â hi.

39 Roedd dogfennau a ddarparwyd ar fy nghyfer yn ystod gwaith maes yr archwiliad yn dynodi bod tensiynau'n uchel a bod ymddiriedaeth rhwng aelodau'n isel. Er mwyn darparu rhywfaint o gyd-destun, rwy'n nodi isod rai o'r sylwadau a nodwyd gennyf yn ystod yr archwiliad mewn dogfennaeth a gohebiaeth a ddarparwyd ar fy nghyfer:

- 'mae'r mwyafrif [o'r cynghorwyr] yn camddefnyddio'u swydd'.
- 'roedd y ffars gydag adfer arian PACGA yn anunion'.
- 'wynebais elyniaeth, drwgdeimlad, bwlio ac ymddygiad annymunol gan... gynghorwyr cymuned'.
- 'digwyddodd yr ymddygiad gelyniaethus hwn… yng ngŵydd y cyhoedd gan mwyaf a hynny trwy'r cyfryngau cymdeithasol'.
- 'mae'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd blaenorol yn gwneud penderfyniadau heb yn wybod i'r cyngor llawn a/neu'r pwyllgorau'.
- 'roedd dau neu dri o'r cynghorwyr yn ceisio rheoli'r cyngor, roedd yn amlwg os nad oedd unrhyw un yn cydymffurfio â'u ffordd nhw o feddwl, neu eu dehongliad nhw o'r rheolau/rheolau sefydlog ac ati roeddent yn anwybodus.
- 'roeddent yn siarad yn nawddoglyd gyda phobl… roedd hyn yn gyfystyr â bwlio'.

Caiff y sylwadau a nodir uchod eu hatgyfnerthu gan yr amryw gwynion ysgrifenedig a wnaed o fewn a'r tu allan i'r Cyngor mewn perthynas ag ymddygiad aelodau a swyddogion.

40 Nid fy rôl i yw gwneud sylwadau ar ddilysrwydd neu annilysrwydd y datganiadau hyn na bwrw bai ar unrhyw grŵp neu unigolyn o fewn y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n niweidiol i enw da'r Cyngor ac yn niweidiol i fuddiannau'r gymuned leol.

41 Erfyniaf ar y Cyngor i gryfhau ei newidiadau llywodraethu ochr yn ochr ag ymdrechion ehangach i feithrin ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr ymhlith ei aelodau unwaith eto.

## Mae cofnodion y Cyngor yn nodi rhai o'r achosion o wrthdaro rhwng aelodau

42 Ni chafodd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Hydref a 12 Tachwedd 2018 eu cymeradwyo yn unol â'r weithdrefn arferol[2]. Ni chafodd y cofnodion hyn eu cymeradwyo tan 14 Ionawr 2019, gan bod ystyriaeth i'r cofnodion wedi cael ei gohirio yn ystod cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2018. Mae cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2018 ac ym mis Ionawr 2019 yn nodi anghytundebau ynghylch cywirdeb y cofnodion.

43 Cafodd y cyfarfod ar 14 Ionawr 2019 ei gadeirio gan Is-Gadeirydd blaenorol[3] y Cyngor. Wrth lofnodi'r cofnodion i ddynodi eu bod wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor, fe atododd yr Is-Gadeirydd blaenorol ddatganiad fel a ganlyn

> 'Nid yw Cadeirydd y cyfarfod yn credu bod cofnodion y cyfarfod... y Cyfarfod Cyffredin [22 Hydref a 12 Tachwedd] yn gofnod cywir ond ni chafodd y farn hon ei chadarnhau gan y cyfarfod a chaiff y cofnodion eu cadarnhau fel cofnod cywir o'r trafodion.'

44 Mae'r Rheolau Sefydlog a fabwysiadwyd ym mis Ebrill 2014 ac a ddiwygiwyd ym mis Ionawr 2016 a mis Tachwedd 2017 ac a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2017 (tudalen 15D) yn nodi:

> 'D) os nad yw Cadeirydd y cyfarfod yn ystyried bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod y maent yn ymwneud ag ef, dylai lofnodi'r cofnodion a chynnwys paragraff wedi'i eirio fel a ganlyn neu i'r un perwyl….'

Y paragraff a atodwyd wrth y cofnodion gan yr Is-Gadeirydd blaenorol yw'r paragraff a nodir yn y Rheolau Sefydlog.

45 Er gwaethaf y ddarpariaeth yn y Rheolau Sefydlog, yn fy nhyb i, nid yw'n briodol i Gadeirydd y cyfarfod gofnodi anghytundeb o'r fath gan nad yw'r cyfleuster hwn ar gael i unrhyw aelod arall. Lle ceir anghytundeb, dylai aelodau unigol ofyn am gofnodi'r bleidlais.

46 Mae anghytundebau rhwng aelodau wedi'u nodi yng nghofnodion mis Ionawr 2019 hefyd pan fynegwyd pryderon ynghylch y trywydd archwilio ar gyfer gwaith a gomisiynwyd gan Un Llais Cymru ar gyfer gwasanaethau cymorth proffesiynol.

## Nid yw cofnodion y Cyngor yn dogfennu'r broses benderfynu'n llawn

47 Nid yw cofnodion cyngor i fod yn gofnod air am air o'r trafodaethau sy'n digwydd yn ystod cyfarfodydd. Fodd bynnag, dylent fod yn ddigon i gofnodi crynodeb o'r

[2] Cyflwynir y cofnodion drafft i'r cyfarfod dilynol i gadarnhau eu cywirdeb.

[3] Ar adeg fy archwiliad, y cyn-gynghorydd Andrea Boyland oedd is-gadeirydd y Cyngor.

trafodaethau a gafwyd a'r penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor. Canfu fy adolygiad i o gofnodion fel a ganlyn:

- nid oedd wastad yn bosibl cadarnhau yn union beth a drafodwyd ac felly sut y daeth y Cyngor i benderfyniad.
- nid oedd unrhyw gofnod bod cynghorwyr a oedd yn bresennol byth yn gwrthwynebu penderfyniadau a oedd yn cael eu cynnig neu eu gwneud.
- Nid oedd yn glir a oedd cofnodion yn cael eu cymryd o'r holl gyfarfodydd a oedd yn cael eu cyfrif yn rhai sensitif h.y. y wasg a'r cyhoedd wedi'u heithrio.
- Nid yw'r holl gofnodion yn bresennol yn yr adran ar wefan y Cyngor.

48 Dylai cynghorwyr sicrhau eu bod yn cael yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol i wneud penderfyniad gwybodus. Unwaith y cytunwyd bod cofnodion yn gofnod cywir trwy bleidlais fwyafrifol[4], mae Cadeirydd y cyfarfod yn eu llofnodi i ddynodi eu bod wedi'u cymeradwyo a'r rhain wedyn yw'r cofnod hanesyddol o'r busnes a drafodwyd yn y cyfarfod.

49 Ni ddylid diwygio unrhyw beth; os oes anghywirdebau, dylid cofnodi'r rhain yn y cyfarfod nesaf.

## Nid yw eitemau ar gyfer penderfyniad wastad yn cael eu cymryd fel eitemau ar wahân ar yr agenda

50 Amlygodd fy adolygiad o gofnodion ac agendâu cyfarfodydd y Cyngor hefyd nad yw penderfyniadau arwyddocaol gan y Cyngor yn cael eu trafod ar wahân. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- y modd y cytunwyd bwrw ymlaen â swydd y Cynorthwyydd Gweinyddol oedd bod y Cyngor yn cytuno â chofnodion y Pwyllgor Gweinyddol a Personél.
- cafodd penodiad y Swyddog Cymorth Gweinyddol ei amlygu i'r aelodau trwy gyfrwng rhan o gyfarfodydd lle ceir "Cyhoeddiadau'r Cadeirydd"
- cyflwynwyd cytundeb i dalu am wasanaethau ymgynghoriaeth i'r Cyngor ar ôl i'r contract gael ei lofnodi gan y Cadeirydd blaenorol.

51 Yn ystod y broses glirio dywedodd cynghorwyr fod y defnydd o "Gyhoeddiadau'r Cadeirydd" yn golygu nad oeddent yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus. Fodd bynnag, yn fy nhyb i mae pob aelod yn dal i fod â chyfrifoldeb am sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'r ffeithiau cyn gwneud penderfyniadau.

[4] Mae'r Cyngor yn ei gyfanrwydd yn cymryd cyfrifoldeb corfforaethol am eu cywirdeb

# Methodd y Cyngor ag ymlynu wrth ei reolau mewnol ei hun ar gyfer caffael gwasanaethau ac o ganlyniad, yn fy nhyb i, fe ysgwyddodd wariant anghyfreithlon o fwy na £62,973 ac nid oedd ganddo drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian

## Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol, gan gynnwys rheoliadau mewn perthynas â chontractau, awdurdodi taliadau a threfniadau bancio

52 Rheolau ysgrifenedig cyngor lleol yw Rheolau Sefydlog. Fe'u defnyddir i gadarnhau gweithdrefnau sefydliadol, gweinyddol a chaffael mewnol cyngor a'i faterion gweithdrefnol ar gyfer cyfarfodydd. Mae'r meysydd a gwmpesir gan y Rheolau Sefydlog yn cynnwys:

- caffael contractau;
- y gofynion statudol ar gyfer cyfarfodydd y cyngor llawn, cynghorwyr, y Swyddog Cyllid Cyfrifol a'r Swyddog Priodol; a hefyd
- y nifer, lle, cworwm, rhybuddion a gweithdrefnau eraill ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau, gan bod llai o ofynion statudol ar gyfer y rhain.

53 Mae Rheoliadau Ariannol yn golygu 'Rheoliadau Sefydlog' y Cyngor sy'n rheoleiddio ac yn rheoli ei faterion ariannol a'i weithdrefnau cyfrifyddu.

54 Mae'r Rheolau Sefydlog/Rheoliadau Ariannol yn cynnwys darpariaethau i hepgor rheolau penodol os yw'n angenrheidiol gwneud hynny; dim ond dan amgylchiadau eithriadol y dylid gwneud hyn. Dylai'r penderfyniad i wneud hynny gael ei gofnodi'n glir gan y Cyngor.

55 Canfu fy archwiliad fod gan y Cyngor Reolau Sefydlog/Rheoliadau Ariannol. Y tro diwethaf iddo adolygu a chymeradwyo ei Reolau Sefydlog/Rheoliadau Ariannol oedd ym mis Mai 2019. At ddibenion fy archwiliad, fe archwiliais gydymffurfiaeth â'r Rheolau Sefydlog/Rheoliadau Ariannol a fabwysiadwyd yn 2014 ac a ddiwygiwyd ym mis Tachwedd 2017 ac a oedd mewn grym yn ystod 2018-19.

56 Yn arbennig, mae'r Rheolau Sefydlog/Rheoliadau Ariannol yn cynnwys rheolau ar gyfer:

- caffael contractau
- awdurdodi taliadau
- trefniadau bancio

Mae **Arddangosyn 3** isod yn nodi trothwyon Rheolau Sefydlog y Cyngor.

**Arddangosyn 3: mae Rheolau Sefydlog y Cyngor yn pennu trothwyon ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau yn seiliedig ar werth contractau**

| Gwerth y contract | Gofyniad yn y Rheolau Sefydlog |
|---|---|
| O dan £3,000 | Mae Adran 4.1 o'r Rheoliadau Ariannol yn cadarnhau bod gan bwyllgor gyfrifoldeb dirprwyedig am gymeradwyo taliadau ar gyfer prosiectau o fewn y gyllideb a ddyrannwyd iddo. |
| £3,000 i £25,000 | Rhaid i'r Cyngor gael tri dyfynbris, gyda'r Cyngor yn penderfynu pwy yw'r tendrwr llwyddiannus |
| Mwy na £25,000 | Tendrau. |

Ffynhonnell Rheolau Sefydlog Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy a fabwysiadwyd yn 2014, ac a ddiwygiwyd ym mis Tachwedd 2017

## Ni chydymffurfiodd y Cyngor â'i reolau sefydlog a'i reoliadau ariannol wrth osod tri chontract â gwerth cronnus o £36,780 ar 31 Mawrth 2019

57 Wrth ystyried cost rhagamcanol unrhyw gontract penodol, dylai'r Cyngor ystyried cyfanswm gwerth amcangyfrifedig y contract dros oes y contract yn hytrach na chostau amcangyfrifedig am un flwyddyn. Ar ben hynny, ni ddylai contractau gael eu 'rhannu' i sicrhau nad yw pob lot yn uwch na throthwy caffael y Cyngor. Rwyf wedi cael fy hysbysu nad yw hyn wedi cael ei ystyried yn flaenorol gan y Cyngor.

58 Amlygodd adolygiad o lyfr arian y Cyngor fod y Cyngor, ers 2013-14 wedi bod yn talu'n rheolaidd am yr un gwasanaeth gan yr un cwmni. Mae **Arddangosyn 4** yn nodi'r taliadau cronnus a'r taliadau a wnaed yn 2018-19 ar gyfer gwasanaethau ym mhob categori.

**Arddangosyn 4: mae’r Cyngor wedi ysgwyddo dros £36,000 ar wasanaethau lle nad oes tystiolaeth i ddangos ei fod wedi cydymffurfio â’i reolau sefydlog.**

| Gwasanaeth a ddarparwyd | Cyfanswm taliadau rhwng 2013-14 a 31 Mawrth 2019 £ | Taliadau yn 2018-19 £ | Contract ar gael | Tystiolaeth i ategu cydymffurfiaeth â’r Rheolau Sefydlog / Rheoliadau Ariannol ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Casglu biniau gwastraff cŵn | 22,000 | 5,222 | Nac oes | Nac oes |
| Tirlunio | 7,245 | 320 | Nac oes | Nad oes |
| Deunydd ysgrifennu | 7,535 | 795 | Nac oes | Nac oes |
| **CYFANSWM** | **36,780** | **6,337** | | |

Ffynhonnell: Llyfr arian Cyngor Cymuned Magwyr a Gwndy

59 Er bod pob taliad unigol a wnaed islaw’r trothwy o £3,000 y mae’n rhaid ei gyrraedd cyn bod dyfynbrisiau’n ofynnol, mae cyfanswm gwerth y gwaith a wnaed yn uwch o lawer na throthwy’r Cyngor sy’n golygu ei bod yn ofynnol cael dyfynbrisiau cystadleuol. Er enghraifft, yn 2018-19 yn unig, fe ysgwyddodd y Cyngor wariant a oedd yn gyfanswm o £5,222 am gasglu biniau gwastraff cŵn.

60 Dywedodd y Cadeirydd blaenorol[5] yn ystod y broses glirio, mai dim ond un darparwr gwasanaeth casglu biniau gwastraff cŵn sydd a bod proses dendro wedi cael ei chynnal yn 2017 ar gyfer torri gwair. Ni ddarparwyd tystiolaeth ar ein cyfer o unrhyw broses dendro.

61 Ar gyfer yr holl wasanaethau a restrir yn **Arddangosyn 4**, nid yw’r Cyngor wedi gallu darparu unrhyw dystiolaeth i gadarnhau:

- a oedd wedi ystyried cyfanswm gwerth y gwariant a oedd yn debygol o gael ei ysgwyddo dan bob contract;

[5] Ar adeg fy adolygiad, y Cyngh. Donna James oedd cadeirydd y Cyngor

- a gydymffurfiodd â'i Reolau Sefydlog/Rheoliadau Ariannol wrth osod y contractau hyn; nac
- a yw'n gosod y contractau hyn yn flynyddol.

62 Er ei bod yn bosibl hepgor gofynion ei reolau sefydlog pan fo'n angenrheidiol[6], ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth ar fy nghyfer yng nghofnodion y Cyngor ychwaith, i ddangos ei fod wedi cytuno y gellid hepgor y Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol mewn perthynas â'r taliadau hyn.

63 Yn fy nhyb i, mae methiant y Cyngor i gydymffurfio â'i reoliadau ei hun yn golygu ei fod wedi ysgwyddo gwariant anghyfreithlon a oedd yn gyfanswm o £36,780.

## Nid yw'r Cyngor yn gallu dangos ei fod wedi cydymffurfio â'i derfynau cymeradwyo yn ei Reoliadau Ariannol, ar gyfer gwasanaethau a oedd â gwerth cronnus o £5,192 ar 31 Mawrth 2019

64 Fel a nodir yn **Arddangosyn 3** uchod, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo'r holl wariant a gynigir gan bwyllgor pan nad oes prosiect wedi'i ddyrannu o fewn cyllideb y pwyllgor.

65 Mae Adran 4.1 o'r Rheoliadau Ariannol a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél yn cadarnhau bod gan y Pwyllgor gyfrifoldeb dirprwyedig am gymeradwyo taliadau ar gyfer prosiectau o fewn y gyllideb a ddyrannwyd iddo.

66 Canfu fy archwiliad ddau achlysur (**Arddangosyn 5**) yn ystod 2018-19 lle aeth y Pwyllgor y tu hwnt i'w awdurdod dirprwyedig a chymeradwyo gwariant ar gyfer prosiectau, er eu bod yn ei gylch gwaith, nad oeddent o fewn cyllideb a oedd wedi'i dyrannu ac yr oedd felly'n ofynnol cael cymeradwyaeth y Cyngor llawn iddynt. Fe ysgwyddwyd y gwariant hwn heb gael cymeradwyaeth y Cyngor llawn cyn ymrwymo i'r contractau.

[6] Er enghraifft, lle nad oes ond un cyflenwr. Fodd bynnag, rhaid i'r Cyngor gadarnhau mai dim ond un cyflenwr sydd.

**Arddangosyn 5: fe ysgwyddodd y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél wariant o £5,192 ar ddau brosiect a oedd y tu allan i'w awdurdod dirprwyedig**

| **Gwasanaeth a ddarparwyd** | **Taliadau yn 2018-19 £** | Contract ar gael | Tystiolaeth i ategu cydymffurfiaeth â'r Rheolau Sefydlog / Rheoliadau Ariannol ar gael |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau cymorth proffesiynol | 3,059 | Nac oes | Nac oes |
| Ffioedd ymgynghoriaeth | 2,600 | Nac oes | Nac oes |
| **CYFANSWM** | **5,659** | | |

Ffynhonnell: Llyfr arian Cyngor Cymuned Magwyr a Gwndy

67 Heblaw am y ffaith nad wyf wedi gweld tystiolaeth i awgrymu bod y Cyngor wedi dirprwyo awdurdod i ysgwyddo gwariant i'w bwyllgorau, byddai dal angen i unrhyw bwyllgor ag awdurdod dirprwyedig i ysgwyddo gwariant ar ran y Cyngor ddilyn Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor. Nid yw'r Cyngor wedi darparu unrhyw dystiolaeth bod y Pwyllgor wedi ceisio cael tri dyfynbris ar gyfer gwasanaethau ymgynghoriaeth cyn ysgwyddo'r gwariant.

68 Mewn perthynas â'r ffioedd Ymgynghoriaeth, ar 24 Hydref 2018 trafododd y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél achos honedig o danseilio diogelwch data. Mae'r cofnodion yn nodi, 'Cytunwyd i gysylltu â CS Fynwy i ganfod a oedd lefel addas o arbenigedd mewnol yn bodoli neu, os nad oedd, eu bod nhw'n argymell ymgynghorydd neu is-gontractwr addas'. Nid yw'r cofnodion yn nodi bod y pwyllgor wedi ystyried bod hwn yn fater brys ac y dylid hepgor y rheolau sefydlog, a datgymhwyso'r gofyniad am dri dyfynbris.

69 Yn dilyn cyswllt y Cyngor, dywedodd Cyngor Sir Fynwy, y Cyngor Sir, nad oeddent yn gallu gwneud y gwaith ond fe ddarparon nhw fanylion cyswllt ymgynghorydd ar gyfer y Cadeirydd blaenorol. Nid wyf wedi gweld unrhyw benderfyniad a gofnodwyd gan y Cyngor i gysylltu â'r ymgynghorydd wedyn.

70 Mae'r Cadeirydd blaenorol wedi dweud bod 'datganiad ysgrifenedig o waith/contract' ar gyfer y gwasanaethau ymgynghoriaeth 'a ddyroddwyd ar 25/10/18'. Mae wedi darparu copi ar fy nghyfer o'r 'Datganiad o Waith gyda'r contractwr. Mae hwn wedi cael ei lofnodi gan y Cadeirydd blaenorol, ar ran y Cyngor. Nid yw'r Datganiad o Waith wedi cael ei lofnodi gan yr ymgynghorydd.

71 Mewn neges e-bost dyddiedig 26 Hydref 2018 at yr Is-Gadeirydd blaenorol dywedodd 'Rydym wedi cael ein hawdurdodi gan y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél a bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yn y cofnodion cyfrinachol. Rydym hefyd wedi'n hawdurdodi dan y rheoliadau ariannol'. Dywedodd Cadeirydd blaenorol y Cyngor hefyd, 'Fe wnes i geisio cael nifer o ddyfynbrisiau ar ran y Cyngor.'

72 Fe wnaeth Cadeirydd blaenorol y Pwyllgor[7] 'gynghori'r' Cyngor ar 10 Rhagfyr 2018, bod hyn yn 'perthyn o fewn swm cyllideb ddirprwyedig y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél ac oherwydd y brys a'r amgylchiadau nad oedd yn ofynnol cael tri dyfynbris'. Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r taliad i Bridewell yn y cyfarfod hwn.

73 Fodd bynnag, nid yw'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer 2018-19 yn nodi'n glir bod unrhyw linellau yn y gyllideb wedi'u dyrannu'n benodol i'r Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél. Ar ben hynny, mae cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2018 yn nodi: 'Hysbysodd y Clerc nad oedd y Cyngor Llawn wedi rhyddhau unrhyw swyddogaethau o ran y gyllideb i'w bwyllgorau'.

74 Nid yw fy adolygiad o gofnodion y Cyngor a'm trafodaethau gyda Chlerc a Chadeirydd blaenorol y Cyngor wedi canfod tystiolaeth i ategu'r sail dros hepgor y Rheoliadau Ariannol mewn perthynas â'r taliadau hyn.

75 Yn fy nhyb i, mae methiant y Cyngor i gydymffurfio â'i reoliadau ariannol ei hun yn golygu ei fod wedi ysgwyddo gwariant anghyfreithlon sy'n gyfanswm o £5,192.

## Mae'r methiant i ddilyn prosesau priodol wrth osod contractau a'r diffyg contractau neu gylchoedd gorchwyl yn golygu nad yw'r Cyngor yn gallu dangos bod ganddo drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (na gwerth am arian) yn ei ddefnydd o adnoddau

76 Wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau o werthoedd sylweddol i'r Cyngor, mae'n bwysig bod y Cyngor yn profi'r farchnad i sicrhau ei fod yn cael dyfynbris cystadleuol am y nwyddau neu'r gwasanaethau y mae'n eu prynu. Yn niffyg unrhyw broses gaffael gystadleuol, ni all y Cyngor ddangos ei fod wedi cael gwerth am arian.

77 Ar ben hynny, er mwyn dangos ei fod wedi sicrhau gwerth am arian dan gontract, dylai fod gan y Cyngor gontractau ysgrifenedig, eglur gyda chyflenwyr nwyddau a gwasanaethau. Mae contractau ysgrifenedig yn bwysig am eu bod yn nodi disgwyliadau ar gyfer y ddau barti, yn diogelu'r ddau barti os na chaiff y

[7] Ar adeg fy archwiliad, y cyn-gynghorydd Andrea Boyland oedd Cadeirydd y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél.

disgwyliadau hynny eu bodloni ac yn cloi pris i mewn a fydd yn cael ei dalu am y nwyddau neu'r gwasanaethau.

78 Ar gyfer pob un o'r contractau a restrir yn **Arddangosyn 4** ac **Arddangosyn 5**, nid oes gan y Cyngor gontract ysgrifenedig nac unrhyw gylchoedd gorchwyl ar gyfer y gwasanaethau y mae wedi'u caffael. Mae hyn yn golygu nad oes ganddo unrhyw ddealltwriaeth eglur am yr hyn a ddisgwylir gan bob contractwr naill ai o ran gwasanaethau sydd i'w darparu neu o ran safonau perfformiad. O ganlyniad, mae hyn yn golygu na all ddangos ei fod:

- wedi cael y gwasanaethau yr oedd yn disgwyl eu cael wrth osod y gwaith; ac
- wedi sicrhau gwerth am arian.

79 O ganlyniad i'r diffygion a nodir uchod, rwyf yn dod i'r casgliad nad yw'r cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

# Mae'r Cyngor wedi methu â dilyn proses briodol wrth recriwtio staff ac, yn fy nhyb i, mae wedi ysgwyddo gwariant anghyfreithlon sy'n gyfanswm o £22,595

## Ni chydymffurfiodd y Cyngor â'i ofynion ei hun i ystyried achos busnes recriwtio i ategu'r broses o benodi staff

80 Mae adolygiad o wefan y Cyngor a thrafodaethau gyda'r Clerc a'r Cadeirydd blaenorol wedi cadarnhau nad oes gan Gyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy bolisi recriwtio staff. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau Ariannol (7.8) yn cyfeirio at recriwtio staff gan nodi;

> 'Cyn cyflogi staff interim rhaid i'r Cyngor ystyried achos busnes llawn.'

Dyma'r unig gyfeiriad yn y Rheoliadau ac ni wneir unrhyw ddarpariaethau ar gyfer cyflogeion parhaol.

81 Am nifer o flynyddoedd, roedd y Cyngor yn cydnabod bod llwyth gwaith y Clerc yn cynyddu. Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi 2014 penderfynodd y Cyngor y

> 'dylai archwilio'r posibilrwydd bod clerc o Gyngor Tref a Chymuned arall yn cefnogi'r swyddfa dros dro am hyd at 10 awr yr wythnos.'

Fe gynhwysodd y Cyngor swm o £8,000 ar gyfer cymorth swyddfa yn ei gyllideb ar gyfer 2015-16.

82 Mae'r Cadeirydd blaenorol wedi darparu nodiadau o gyfarfod cyllid a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2016 sy'n nodi y gallai'r gyllideb ar gyfer cymorth swyddfa gael ei defnyddio ar gyfer prosiectau y tu allan i'r gyllideb, neu i ddarparu cymhorthdal i ategu'r praesept, neu y gallai gael ei chlustnodi ar gyfer staff cymorth yn ystod 2016-17. Mae cofnodion y cyfarfod hwn yn nodi:

‘y gyllideb o £8k yn 2015/2016 ar gyfer gweithiwr cymorth i gael ei chlustnodi i dalu cost unrhyw waith ad hoc untro, neu weithiwr cymorth os oes angen un yn 2016/2017 oherwydd unrhyw gynnydd yn y llwyth gwaith o ganlyniad i Ddatganoli Gwasanaethau gan Gyngor Sir Fynwy.’

83 Cynhaliwyd trafodaethau pellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél ym mis Rhagfyr 2015 a chyfarfod y Cyngor llawn ym mis Ionawr 2016. Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr 2016 yn nodi bod y Cyngor wedi cytuno:

‘o dan amgylchiadau arbennig y gallai’r Cyngor ddefnyddio lleoliadau profiad gwaith o Ysgol Cil-y-coed (os yw’r amseriad yn caniatáu), defnyddio staff asiantaeth cyflogaeth, neu ‘bolisi argymell ffrind’ ar gyfer gwaith ad-hoc untro.’

Roedd y penderfyniad hwn yn cyd-daro â chytundeb gan y Cyngor i ganiatáu i’r Clerc gynyddu ei horiau gwaith o oriau rhan-amser i oriau llawn-amser.

84 Ym mis Ionawr 2017, cytunodd y cyfarfod Cyllid ‘I gario unrhyw gyllidebau neu gronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi heb eu defnyddio drosodd i’w defnyddio yn 2017/2018 neu i’w cynnwys mewn Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol’. Gwnaed penderfyniad tebyg yng nghyfarfod Cyllid mis Ionawr 2018, i gario arian drosodd i mewn i 2018-19.

85 Ym mis Ionawr 2018, ryw dair blynedd a hanner ar ôl y trafodaethau gwreiddiol, fe wnaeth y Cyngor benderfyniad i glustnodi £8,000 ar gyfer ‘staff cymorth gweinyddol newydd arfaethedig’ yn ei gyfarfod cynllunio’r gyllideb.

86 Ym mis Chwefror 2018 ar ôl cyfnod y Clerc o absenoldeb oherwydd salwch, daeth y Cyngor yn ymwybodol bod Cynorthwyydd Gweinyddol blaenorol o Gyngor Tref cyfagos ar gael i wneud gwaith.

87 Yn dilyn y cyfarfod, rhoddodd y Clerc wybod i’r Cadeirydd blaenorol ei bod hi’n awyddus i ddefnyddio arbenigedd yr unigolyn. Yn ddiweddarach dechreuodd yr unigolyn weithio gyda’r Cyngor ar sail ad hoc fel Cynorthwyydd Gweinyddol.

88 Er bod y Cyngor wedi gwneud darpariaeth gyllidebol i ariannu staff cymorth, roedd yn ofynnol dan ei Reoliadau Ariannol ei fod yn ystyried achos busnes cyn gwneud penodiad interim.

89 Nododd Cadeirydd blaenorol y Cyngor a Chadeirydd blaenorol y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél, wrth ymateb i gywirdeb ffeithiol ein hadroddiad

‘Nid oes gofyniad gorfodol i ‘gwblhau’ achos busnes ond i ‘ystyried’ un.’

Fe egluron nhw, yn eu tyb hwy, fod y Cyngor wedi cydymffurfio â’i Reoliadau Ariannol i ystyried achos busnes, gan bod trafodaeth lafar wedi bod am y penodiad yn nifer o gyfarfodydd y cyngor a’r pwyllgor.

90 Fodd bynnag, dywedodd y Cadeirydd presennol, er

‘Bod y Cyngor wedi trafod opsiynau yn y gorffennol, yn sicr... nid oedd wedi trafod hyn yn Llawn cyn i’r Cadeirydd gynnal y broses recriwtio ar yr achlysur hwn.’

91 Gan bod diffyg tystiolaeth ategol, nid wyf wedi gallu cadarnhau â sicrwydd pa ystyriaeth roddodd y Cyngor i'r angen am gymorth gweinyddol ychwanegol.

92 Rwy'n ystyried, er mwyn i'r Cyngor gydymffurfio â'i Reoliadau Ariannol a chael sicrwydd digonol ynghylch gwerth am arian penodi cyflogeion interim, y dylai fod wedi paratoi ac ystyried achos busnes ysgrifenedig. Yn niffyg achos busnes o'r fath wedi'i ddogfennu, nid oes unrhyw dystiolaeth o'r hyn a drafodwyd a pha ffactorau a gymerwyd i ystyriaeth gan y Cyngor.

93 Canfu fy archwiliad ddiffygion tebyg ym mhroses ddilynol y Cyngor i benodi Swyddog Cymorth Gweinyddol ym mis Mai 2018. Felly, rwy'n ystyried bod y Cyngor wedi methu ag ateb y gofynion a nodir yn ei Reoliadau Ariannol. Yn fy marn i felly gweithredodd yn erbyn y gyfraith ac ysgwyddodd wariant anghyfreithlon o £1,155.72 yn ystod 2017-18 (Cynorthwyydd Gweinyddol) a £1,413.20 yn ystod 2018-19 (Swyddog Cymorth Gweinyddol)[8].

## Trwy greu swydd yn ei rhinwedd ei hun ac ar sail barhaol ar gyfer Cynorthwyydd Gweinyddol heb gymeradwyaeth y Cyngor aeth y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél y tu hwnt i'w gylch gorchwyl ac mae hynny wedi achosi i'r Cyngor ysgwyddo gwariant anghyfreithlon o £20,026

94 Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr 2018 yn dynodi bod cyllideb ychwanegol o £8,000 wedi cael ei chlustnodi ar gyfer 'staff cymorth newydd arfaethedig'. Nid yw'r cofnodion yn nodi pa swyddi newydd ar gyfer staff cymorth oedd yn mynd i gael eu creu.

95 Dylid nodi bod oddeutu £1,156 o'r gyllideb hon wedi cael ei defnyddio trwy benodi Cynorthwyydd Gweinyddol interim yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2018. Felly, roedd y gyllideb o £16,000 a ddyrannwyd gan y Cyngor wedi cael ei disbyddu cyn penodi'r Cynorthwyydd Gweinyddol yn barhaol.

96 Ym mis Mawrth 2018, oherwydd absenoldeb y Clerc oherwydd salwch, fe wnaeth y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél argymhellion i'r Cyngor:

> 'a. argymell bod y swydd wag yn cael ei hysbysebu fel a gytunwyd
>
> b. argymell bod y cyngor yn rhoi pŵer wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél ar gyfer penodi'

97 Fe nododd Cadeirydd blaenorol y Cyngor a Chadeirydd blaenorol y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél mewn ymateb i'n canfyddiadau cychwynnol, fod cylch gorchwyl y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél yn cynnwys pwynt bwled, sy'n nodi 'recriwtio'. Yn eu tyb hwy, mae hyn yn rhoi awdurdod dirprwyedig i'r pwyllgor gyflawni unrhyw ddyletswydd mewn perthynas â recriwtio gan gynnwys creu swyddi yn y sefydliad.

[8] Ffigyrau gros a ddarparwyd gan Glerc Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy

98 Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod swydd yn y sefydliad wedi cael ei chreu erbyn mis Mawrth 2018. Ymddengys mai cyfyngedig fu'r gweithgarwch gan y Cyngor i graffu ar gofnodion y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél ym mis Mawrth 2018. Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill 2018, mae'r cofnodion yn syml yn nodi:

> 'Cael cofnodion drafft y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél a gynhaliwyd ar 29.3.18 ac ystyried yr argymhellion [wedi'u hatodi]
>
> **Penderfynwyd:** cymeradwyo cofnodion ac argymhellion y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél 29.3.18.'

99 Yn dilyn proses recriwtio, penodwyd y Cynorthwyydd Gweinyddol dros dro i'r swydd barhaol ym mis Mai 2018.

100 Yn ei hymateb i'r broses glirio nododd y Cadeirydd presennol

> 'Wedyn fe hysbyswyd y Cyngor llawn, yn ystod cyhoeddiadau'r Cadeirydd blaenorol ac nid fel rhan o eitem ar wahân ar yr agenda.' (gweler paragraff 39)

101 Rwy'n dod i'r casgliad bod y modd y penodwyd Cynorthwyydd Gweinyddol gan y Cyngor yn ddiffygiol mewn nifer o ffyrdd:

- mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r pwerau i recriwtio staff i'r Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél. Nid yw'r trefniant dirprwyo'n nodi bod gan y Pwyllgor y pŵer i greu swyddi yn y sefydliad. Mae hyn yn bwysig gan y gall unrhyw swyddi a gaiff eu creu effeithio ar gyllideb y Cyngor ar y cyfan a'r cyllidebau a ddirprwyir i bwyllgorau eraill.
- aeth cost swydd y Cynorthwyydd Gweinyddol y tu hwnt i'r swm a gyllidebwyd o £16,000. Nid yw swyddogaethau dirprwyedig y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél yn ymestyn i gynhwyso na throsglwyddo gwariant o gyllidebau eraill (y tu allan i'w gylch gwaith).
- ni chafodd gofyniad na throsglwyddiad cyllidebol ychwanegol ei ystyried gan y Cyngor.
- mae cofnodion cyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill 2018, fel a nodir uchod, yn dynodi bod y Cyngor yn syml wedi mabwysiadu'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél hen ryw lawer o graffu os o gwbl ar yr argymhellion a'r goblygiadau ar gyfer y gyllideb.

102 O ganlyniad i'r diffygion hyn, rwy'n ystyried bod y Pwyllgor wedi gweithredu yn erbyn y gyfraith a bod y gwariant a ysgwyddwyd gan y Cyngor felly'n anghyfreithlon.

## Ni ddilynodd y Cyngor broses gyfreithlon wrth benodi Swyddog Cymorth Gweinyddol

103 Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél ar 30 Mai 2018, cadarnhawyd fod cyfnod salwch y Clerc yn amhenodol. Gofynnodd Cadeirydd

blaenorol y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél i'r Pwyllgor ystyried cymorth ychwanegol yn y swyddfa i gyflenwi'r diffyg o ddau ddiwrnod.

104 Mae cofnodion cyfarfod y pwyllgor yn nodi 'Cytunodd y pwyllgor i gyflogi cymorth ychwanegol yn absenoldeb y clerc gan ei fod yn ystyried bod angen gwasanaeth swyddog llawn-amser ar y cyngor.'

105 Cadarnhaodd Cadeirydd blaenorol y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél fod Cadeirydd blaenorol y Cyngor wedi cysylltu â'r ymgeisydd a ddaeth yn ail yn y broses recriwtio ddiweddar ar gyfer Cynorthwyydd Gweinyddol a'i bod hi'n fodlon gweithio dros dro.

106 Mae'r cofnodion hefyd yn nodi 'Cynghorodd Cadeirydd [blaenorol] y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél fod gan y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél, yn ôl y Cylch Gorchwyl, gyllideb ac awdurdod i wario/cyflogi hyd at £5,000'. Byddai'r arian a oedd yn cael ei ddyrannu i dalu am y swydd yn dod allan o gronfeydd wrth gefn y cyngor. Fodd bynnag, ar ôl adolygu'r rheoliadau ariannol mae'n amlwg y byddai'n ofynnol cael cymeradwyaeth gan y Cyngor i ddefnyddio'r arian o'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r Rheoliadau Ariannol yn nodi:

> 'Gall gwariant ar eitemau refeniw gael ei awdurdodi hyd at y symiau sydd wedi'u cynnwys ar gyfer y dosbarth hwnnw o wariant yn y gyllideb gymeradwy. Dylai'r awdurdod hwn gael ei bennu gan:

- y Swyddog Cyllid Cyfrifol ar gyfer unrhyw eitemau islaw £1000;
- y Swyddog Cyllid Cyfrifol a Chadeirydd y Cyngor ar gyfer eitemau dros £1000 a hyd at £5000; neu
- y Cyngor ar gyfer yr holl eitemau dros £5,000.'

107 Mae'r Cadeirydd blaenorol yn dweud bod hyn yn mynd i gael ei ariannu o'r £8,000 a gariwyd ymlaen o 2015-16 a'r £8,000 y cyllidebwyd ar ei gyfer yn 2018-19. Rwy'n nodi mai £20,025.83 oedd cost swydd y Cynorthwyydd Gweinyddol yn 2018-19; byddai hyn wedi disbyddu'r ddarpariaeth gyllidebol a oedd ar gael.

108 Mae cofnodion dilynol y Cyngor llawn dyddiedig 14 Mehefin 2018 yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r penodiad '034 Cyhoeddiadau'r Cadeirydd: ...Cymorth ychwanegol i'r swyddfa'n cael ei ystyried'. (**gweler paragraff 39**). Mae'r Cadeirydd blaenorol yn nodi nad yw'r cofnodion yn cynrychioli ei chyhoeddiad manwl hi. Nid yw hi'n credu bod y cofnodion yn dangos bod y Cyngor Llawn wedi cael diweddariad ac yn cefnogi'r dull gweithredu hwn.

109 Yn fy marn i, roedd y broses benodi ar gyfer rôl y Swyddog Cymorth Gweinyddol yn ddiffygiol am y rhesymau canlynol:

- nid oes tystiolaeth bod achos busnes wedi cael ei ystyried; ac
- nid oes gan y Pwyllgor awdurdod dirprwyedig i ddyrannu cronfeydd wrth gefn y Cyngor.

110 O ganlyniad i'r diffygion hyn, rwy'n ystyried bod y Pwyllgor wedi gweithredu yn erbyn y gyfraith a bod y gwariant o £1,413 a ysgwyddwyd ar gyfer y swydd Cymorth Gweinyddol yn erbyn y gyfraith.

### Roedd y broses recriwtio a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer swydd y Cynorthwyydd Gweinyddol yn gadarn

111 Mae paragraff 45 yn dynodi nad oedd gan y Cyngor broses recriwtio sefydledig ar gyfer cyflogeion parhaol. Fodd bynnag, ar ôl penderfynu penodi'r Cynorthwyydd Gweinyddol yn barhaol, fe luniodd Cadeirydd blaenorol y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd blaenorol y Cyngor, broses a oedd yn cynnwys y canlynol:

- swydd-ddisgrifiad a manyleb y cyflogai, a oedd yn cynnwys meini prawf hanfodol a dymunol:
- matrics sgorio ar gyfer y ffurflenni cais a fyddai'n dod i law i benderfynu pwy fyddai'n cael cyfweliad, a hwnnw'n cynnwys isafswm sgôr;
- meini prawf cyfweld, gyda chanllaw sgorio; a
- matrics sgorio ar gyfer y cyfweliad.

112 Yn fy nhyb i, fe sicrhaodd y weithdrefn hon fod y broses benodi ei hun yn gadarn. Fodd bynnag, dim ond tystiolaeth gyfyngedig yr wyf wedi'i gweld bod aelodau'r pwyllgor wedi cyfrannu at ddatblygu'r weithdrefn.

## Fe wnaeth y Cyngor daliadau anghyfreithlon i aelod unigol a oedd yn gyfanswm o £500

### Mae hawl gan aelodau'r Cyngor gael lwfansau a delir yn unol â chyfraddau a bennwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

113 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gan gynghorau cymuned awdurdod statudol i dalu lwfansau i'w haelodau. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) sy'n gyfrifol am bennu lefel y taliadau i aelodau etholedig o gynghorau cymuned yng Nghymru gan gynnwys yr uchafswm y gellir ei dalu.

114 Mae'n ofynnol i bob Cyngor benderfynu faint o daliadau fydd yn cael eu gwneud. Yng nghyfarfod y cyngor ar 25 Mehefin 2018, fe benderfynodd y Cyngor fabwysiadu'r lwfansau a nodwyd yn adroddiad blynyddol PACGA ar gyfer 2018-19.

### Mae taliadau a wnaed gan y Cyngor yn ystod 2018-19 yn uwch na'r uchafswm a bennwyd gan PACGA ac, felly, rwy'n ystyried bod y taliad dros ben o £500 yn anghyfreithlon

115 Mae adroddiad blynyddol PACGA yn nodi y gall pob aelod gael tâl o £150 y flwyddyn tuag at gostau a threuliau (ffôn, band eang, deunyddiau ysgrifennu a.y.b.) gwasanaethu eu cymuned.

116 Mae PACGA yn cydnabod y bydd rolau aelodau penodol yn y cynghorau tref a chymuned mwy, er enghraifft cadeiryddion pwyllgorau, yn dwyn mwy o gyfrifoldeb. Mae hefyd yn debygol y bydd gan gynghorau mwy o faint nifer fwy o bwyllgorau, gan adlewyrchu lefel eu gweithgarwch. Mae PACGA yn nodi cynghorau mwy o faint fel y rhai lle mae incwm neu wariant yn uwch na £200,000.

117 Fe wnaeth PACGA y penderfyniad canlynol:

> ‘Penderfyniad 46: Rhaid i gynghorau tref a chymuned yng Ngrŵp A sicrhau bod taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i isafswm o 1 ac uchafswm o 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau.’

118 Yn ei gyfarfod ar 25 Mehefin 2018 fe benderfynodd y Cyngor fabwysiadu argymhellion PACGA. Mae’r cofnodion yn nodi “

> ‘044.1 Mabwysiadu Adroddiad Blynyddol PACGA 2018 [gweler Tudalennau 40 – 45] (wedi’i atodi) Penderfynwyd: Mabwysiadu Adroddiad Blynyddol PACGA 2018
>
> 044.2 Cymeradwyo taliadau yn ôl penderfyniadau 47-53 fel a nodir yng Nghyllideb CCMG 2018/19 Cyfeiriodd y cadeirydd at y cyfarfodydd niferus pan gytunwyd ar 47 - 53 ac roedd copi o Gyllideb CCMG o’i gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol 2018/19 yn cynnwys dadansoddiad o’r penderfyniadau wedi’i atodi wrth yr agenda.
>
> Penderfynwyd: Cymeradwyo taliadau yn ôl penderfyniadau 47-53 fel a nodir yng Nghyllideb CCMG 2018/19’

119 Nid yw’r cofnodion hyn yn nodi sut y bydd taliadau’n cael eu gwneud. Mae **Arddangosyn 6** yn nodi’r taliadau a wnaed gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2018 ac yn nodi bod un aelod wedi cael lwfansau sy’n uwch nag uchafswm y taliadau a ganiateir gan PACGA.

**Arddangosyn 7: taliadau i gynghorwyr yn 2018-19**

| Cynghorydd | Lwfansau a dalwyd yn 2018-19<br>£ | Uchafswm a ganiateir[9]<br>£ |
|---|---|---|
| Aelodau heb gyfrifoldebau ychwanegol (yr un) | 150 | 150 |

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | 1,650 | 1,650[10] |
| Is-Gadeirydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél | 1,150 | 1,150[11] |
| Cadeirydd y Pwyllgor Parciau a Mannau Agored a Chadeirydd y Pwyllgor Cyfathrebu a Chyswllt â'r Gymuned[12] | 1,150[13] | 650[14] |

Ffynhonnell: Llyfr Arian Magwyr gyda Gwndy 2018-19

120 Roedd rolau Cadeirydd y Pwyllgor Parciau a Mannau Agored a Chadeirydd y Pwyllgor Cyfathrebu a Chyswllt â'r Gymuned ill dwy'n cael eu dal gan yr un aelod. Roedd y Cyngor yn talu dau lwfans cyfrifoldeb penodol i adlewyrchu bod yr aelod hwn yn Cadeirio dau bwyllgor.

121 Yn fy nhyb i, mae Penderfyniad PACGA ar gyfer 2018-19 yn glir mai dim ond un taliad cyfrifoldeb penodol o £500 y gall aelodau unigol ei gael hyd yn oed pan fo ganddynt fwy nag un cyfrifoldeb:

- mae'r penderfyniad yn nodi y gall hyd at 5 aelod gael taliad o £500 i adlewyrchu cyfrifoldebau ychwanegol. Nid yw'n nodi y dylid talu £500 am bob cyfrifoldeb ychwanegol.
- mae penderfyniadau dilynol (52 a 53) yn ymdrin â lwfansau ychwanegol ar gyfer y Pennaeth Dinesig a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig. Mae'r penderfyniadau hyn yn nodi bod y lwfansau Pennaeth Dinesig a Dirprwy Bennaeth Dinesig yn daladwy 'yn ychwanegol at y taliad o £150 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch-gyflog o £500 os hawlir y rhain'. Mae'r penderfyniadau hyn yn dynodi y gellir talu un uwch-gyflog.

122 Felly, rwy'n dod i'r casgliad bod yr aelod hwn wedi cael £500 yn fwy na'r lwfansau a awdurdodir gan PACGA.

[10] Mae'n cynnwys y lwfans Cadeirydd a'r lwfans aelod sylfaenol.

[11] Mae'n cynnwys y lwfans Is-Gadeirydd, y lwfans aelod sylfaenol a lwfans cyfrifoldeb arbennig fel Cadeirydd pwyllgor.

[12] Ar adeg fy archwiliad, y cyn-gynghorydd Mike Boyland oedd Cadeirydd y Pwyllgor Parciau a Mannau Agored a'r Pwyllgor Cyfathrebu a Chyswllt â'r Gymuned.

[13] Yn ystod y broses o glirio'r adroddiad, dywedodd y cyn-gynghorydd Mike Boyland wrthyf ei fod wedi bod yn rhoi ei lwfansau i elusen.

[14] Mae'n cynnwys y lwfans aelod sylfaenol a lwfans cyfrifoldeb penodol fel Cadeirydd pwyllgor. Dim ond un lwfans cyfrifoldeb penodol ellir ei dalu i aelod unigol.

123 Mewn ymateb i'n canfyddiadau dros dro, mae Cadeirydd blaenorol y Pwyllgor Parciau a Mannau Agored a'r Pwyllgor Cyfathrebu a Chyswllt â'r Gymuned wedi dweud nad yw'n ystyried bod gordaliad wedi bod. Yn ei ôl ef, 'cytunodd y Cyngor i fabwysiadu Adroddiad Blynyddol PACGA 2018/19 yn ei gyfanrwydd ond, yn fwy penodol, cytunodd hefyd ar yr atodlen taliadau i aelodau unigol mewn cyfarfod dilynol. Roedd hyn i gyd ymhell cyn cyhoeddi [adroddiad blynyddol PACGA] 2019/20 a oedd, rhaid cyfaddef, yn dynnach o ran iaith a chyfarwyddyd, ond a oedd yn ôl-ddyddio'r taliad o £1,150 a gafodd [ef] o sawl mis. Byddai felly'n ymddangos bod unrhyw gyfeiriad at daliadau blaenorol (hyd yn oed os yw hynny trwy'r hyn a gesglir o ganllawiau yn y dyfodol) yn ôl-weithredol'. Dywedodd hefyd: 'er nad yw canllawiau PACGA 2018/19 yn dweud y gall aelodau gael mwy nag un taliad dan y disgrifiad "cyfrifoldebau ychwanegol", nid yw'n dweud na allant ychwaith'.

124 Yn ei Adroddiad Blynyddol 2019-20, mae PACGA yn egluro 'Ym mhob achos, dim ond un taliad o £500 gall cynghorydd ei dderbyn, beth bynnag yw nifer yr uwch-swyddogaethau sydd ganddo yn y Cyngor'.[15] Dylid nodi na wnaeth PACGA ddiwygio geiriad y penderfyniad ei hun ond ei fod wedi darparu eglurhad ychwanegol.

125 Er gwaethaf yr ymateb a gafwyd i'm canfyddiadau dros dro, yn fy nhyb i, trwy benderfynu talu mwy nag un lwfans uwch-swyddogaeth i aelod unigol, fe gamddehonglodd y Cyngor benderfyniad PACGA ac fe weithredodd yn erbyn y gyfraith, gan ysgwyddo gwariant sy'n anghyfreithlon.

# Nid oes gan y Cyngor system rheolaeth fewnol ddigonol ac effeithiol ac mae'n methu â chydymffurfio â'i reoliadau ariannol ei hun

## Mae'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod ganddo system rheolaeth fewnol gadarn a bod y system hon yn ymgorffori Rheoliadau Ariannol y Cyngor

126 Mae Rheoliad 5 yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fod â system rheolaeth fewnol gadarn sy'n hwyluso trefn ar gyfer arfer swyddogaethau'r Cyngor yn effeithiol ac sy'n cynnwys rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

127 Mae Rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol sicrhau bod gan y Cyngor systemau rheoli cyfrifyddu y mae'n rhaid iddynt gynnwys mesurau i:

[15] Paragraff 13.17 yn Adroddiad Blynyddol PACGA 2019-2020

- sicrhau bod trafodion ariannol y Cyngor yn cael eu cofnodi cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ac mor gywir ag sy'n rhesymol bosibl; a hefyd
- ei gwneud yn bosibl atal a chanfod anghywirdebau a thwyll, a'r gallu i ail-lunio unrhyw gofnodion coll.

128 Fel rhan o'r fframwaith rheoli hwn, mae'r Cyngor wedi sefydlu ei Reoliadau Ariannol. Dylai'r Cyngor ymlynu wrth y Rheoliadau Ariannol hyn ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol.

## Nid yw'n glir a yw'r trefniadau bancio presennol yn cydymffurfio â Rheoliadau Ariannol y Cyngor ac a ydynt yn ddigonol i ddiogelu'r Cyngor yn absenoldeb y Clerc

129 Mae Rheoliadau Ariannol y Cyngor (6.11) yn nodi, lle mae angen rhif adnabod personol neu gyfrinair i gael mynediad at gofnodion y Cyngor ar gyfrifiadur, y dylid gwneud nodyn o'r rhif adnabod personol neu'r cyfrinair a'i roi i Gadeirydd y Cyngor a chael ei gadw ganddo mewn amlen wedi'i selio sydd â'r dyddiad arni.

130 Mewn cyfweliad ar 6 Mehefin 2019 gyda Chadeirydd blaenorol ac Is-Gadeirydd blaenorol y Cyngor, dywedodd y Cadeirydd blaenorol nad oes ganddi'r manylion y mae eu hangen i gael mynediad at system bancio'r Cyngor. Mae'r Cadeirydd blaenorol yn haeru bod y manylion banc wedi cael eu nodi mewn amlen wedi'i selio gan y Clerc a'u gosod mewn lleoliad sy'n hysbys i ŵr y Clerc yn unig. Mae cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gweinyddol a Phersonél a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2018 yn cadarnhau 'mae'r Clerc yn dal heb ddarparu amlen wedi'i selio ar gyfer Cadeirydd y Cyngor sy'n cynnwys cyfrineiriau a manylion mewngofnodi i'w defnyddio mewn argyfwng, fel a ofynnwyd gyntaf ym mis Tachwedd 2017.

131 Fodd bynnag, rydym ni wedi cael copi o neges e-bost oddi wrth y Cadeirydd dyddiedig 2 Tachwedd 2018, a oedd yn nodi

> 'Yn unol â'n Rheoliad Ariannol 6:11 rwy'n eich hysbysu bod yr amlen wedi'i selio sy'n cynnwys y cyfrineiriau a'r manylion mewngofnodi ar gyfer Cyfrifiadur y swyddfa wedi cael ei hagor gennyf fi heddiw ym mhresenoldeb dau Gynghorydd a chyda'r Archwilydd TG yn dyst.'

132 Hefyd, mae'r clerc wedi dweud bod gan y Cadeirydd blaenorol fynediad at system bancio'r Cyngor. Dywedodd, 'Nid oedd y Cadeirydd blaenorol yn dymuno dal copi o'r cyfrineiriau yn ei chyfeiriad cartref ac roedd yn eu cadw mewn amlen wedi'i selio â'r dyddiad arni mewn drôr ffeilio yn swyddfa'r Cyngor. Pan gymerodd y Cyngh. James yr awenau fel Cadeirydd, fe'i hysbyswyd ynghylch penderfyniad y Cadeirydd blaenorol ac roedd yn dymuno i bethau barhau fel oeddent. Pan gafodd cyfrineiriau eu newid, yna cafodd amlen y Cadeirydd yn y drôr ffeilio'i diweddaru hefyd'.

133 Os yw'r Cyngor yn methu â chael mynediad at fancio ar-lein am nad yw'r Clerc ar gael, mae risg na fyddai'r Cyngor yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau ariannol

wrth iddynt ddod yn ddyledus. Nid yw'n glir pam na allai llofnodwyr awdurdodedig, heblaw am y clerc, gael manylion mewngofnodi gan y banc er mwyn cael mynediad at fancio ar-lein.

134 Yn ôl y clerc, 'Ers i'r Cyngor newid i fancio ar-lein i fonitro'i gyfrifon a thalu'r cyflogau', mae'r Cadeirydd blaenorol a llofnodwr arall 'yn meddu ar y gallu i gael mynediad at gyfrifon y Cyngor ar-lein, gweld cyfriflenni ac ati ac, os oes angen, symud arian rhwng cyfrifon neu wneud taliad. Byddai angen y ddau pe bai angen gwneud taliad. Mae'r naill a'r llall ohonynt wedi cael 'cerdyn', rhif aelodaeth, rhif adnabod personol a 'dilysydd' sy'n bersonol iddynt hwy i'w defnyddio gyda chyfrif y Cyngor ar-lein'. Hefyd, 'roedd llyfr sieciau'r Cyngor ar gael yn y blwch arian parod yn y swyddfa hefyd, yr oedd gan y Cynorthwyydd Gweinyddol fynediad ato. Cafodd yr holl anfonebau yn ystod fy absenoldeb [absenoldeb y clerc] eu talu, â siec, yn y modd arferol'.

135 Mewn sylwadau ysgrifenedig, dywedodd y Cadeirydd presennol fod ganddi'r mynediad a'r cyfrineiriau angenrheidiol ar gyfer cyfleuster bancio ar-lein y Cyngor a bod y mynediad hwn ganddi yn ystod y cyfnod pan oedd y Clerc yn absennol oherwydd salwch.

136 Mae'r anghydfod ynghylch y mynediad at fancio ar-lein yn golygu nad yw'n glir a yw trefniadau bancio'r Cyngor yn gyson â'i Reoliadau Ariannol ac a ydynt yn ddigon cadarn i sicrhau parhad busnes.

## Ni chynhelir adolygiad annibynnol o'r cysoniadau banc

137 Mae Rheoliadau Ariannol y Cyngor ei hun yn ei gwneud yn ofynnol i aelod o'r Cyngor, heblaw'r Cadeirydd, gael ei benodi i wirio'r cysoniadau banc a gynhyrchir gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol a hynny'n rheolaidd.

138 Roedd yr adroddiad archwilio mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 yn nodi nad oedd unrhyw dystiolaeth wedi cael ei darpar i ddynodi bod aelod enwebedig o'r Cyngor yn adolygu ac yn gwirio'r cysoniadau banc a baratowyd gan y Clerc.

139 Ar gyfer 2018-19 roedd y Cyngor yn dibynnu ar y Swyddog Cyllid Cyfrifol, i sicrhau bod cysoniadau banc yn cael eu paratoi'n gywir. O ganlyniad, ni all y Cyngor gymryd unrhyw sicrwydd ynghylch digonolrwydd y rheolaeth sy'n ofynnol yn ôl ei Reoliadau Ariannol.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.